DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015

2015 dccc 6

Nodiadau Esboniadol

LOCAL GOVERNMENT (WALES) ACT 2015

2015 anaw 6

Explanatory Notes

£10.00



DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015

2015 dccc 6

Nodiadau Esboniadol

LOCAL GOVERNMENT (WALES) ACT 2015

2015 anaw 6

Explanatory Notes

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015

NODIADAU ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Hydref 2015 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 25 Tachwedd 2015. Fe'u paratowyd gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Os yw'n ymddangos nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Trosolwg

3. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau allweddol y Ddeddf.

Adran 2 – Prif ddiffiniadau

4. Mae'r adran hon yn diffinio'r prif dermau a ddefnyddir yn y Ddeddf.

Adrannau 3 i 10 – Awdurdodau lleol sy'n uno'n wirfoddol

5. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno dau neu ragor o brif awdurdodau lleol yn wirfoddol er mwyn creu prif awdurdod lleol newydd a diddymu'r awdurdodau presennol sy'n rhan o'r uno gwirfoddol.

Adran 3 – Cynigion ar gyfer uno

6. Mae adran 3 yn galluogi dau neu ragor o brif awdurdodau lleol i wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru, erbyn 30 Tachwedd 2015 neu erbyn dyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, yn cynnig bod yr awdurdodau yn dod ynghyd drwy uno'n wirfoddol i greu prif awdurdod lleol newydd. Bydd rhaid i gyngor llawn pob un o'r awdurdod lleol sy'n gwneud y cais ar y cyd gymryd y penderfyniad i wneud cais; mae is-adran (3) yn golygu na chaiff gweithrediaethau'r awdurdodau lleol hynny gyflawni'r swyddogaeth honno.

7. Mae adran 3(4) yn darparu bod cais o dan adran 3(1) yn cynnwys cais a wnaed i Weinidogion Cymru cyn i adran 3 o'r Ddeddf ddod i rym.

Adran 4 – Ymgynghori cyn gwneud cais i uno

8. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau lleol, cyn cyflwyno cais i uno, ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid y mae'r cynnig i uno'n wirfoddol yn debygol o effeithio arnynt. Rhestrir y rhanddeiliaid y mae'n rhaid ymgynghori â hwy yn is-adran (1)(a) i (h). Gall ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y daeth adran 4 i rym fodloni'r gofyniad yn adran 4(1).

These notes refer to the Local Government (Wales) Act 2015 (anaw 6) which received Royal Assent on 25 November 2015

LOCAL GOVERNMENT (WALES) ACT 2015

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Local Government (Wales) Act 2015 passed by the National Assembly for Wales on 20 October 2015 and which received Royal Assent on 25 November 2015. They have been prepared by the Department for Education and Public Services of the Welsh Government to assist the reader.

2. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act. They are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where an individual section of the Act does not require any explanation or comment, none is given.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – Overview

3. This section provides an overview of the key provisions of the Act.

Section 2 – Main definitions

4. This section defines the main terms used in the Act.

Sections 3 to 10 – Voluntary mergers of local authorities

5. These sections make provision for the voluntary merger of two or more principal local authorities to create a new principal local authority and the abolition of the existing authorities involved in the voluntary merger.

Section 3 – Proposals for merger

6. Section 3 enables two or more principal local authorities to make a joint application to the Welsh Ministers, by 30 November 2015 or by another date specified by the Welsh Ministers through regulations, proposing that the authorities come together through voluntary merger to create a new principal local authority. The decision to make an application will have to be made by the full council of each of the local authorities making the joint application; subsection (3) means this is a function which may not be discharged by the executives of those local authorities.

7. Section 3(4) provides that an application under section 3(1) includes an application made to the Welsh Ministers before section 3 of the Act came into force.

Section 4 – Consultation before making merger application

8. Section 4 requires principal local authorities, prior to submitting an application for merger, to consult with a range of stakeholders likely to be affected by the proposal to merge voluntarily. The stakeholders to be consulted are listed in subsection (1)(a) to (h). Consultation undertaken before section 4 came into force may satisfy the requirement of section 4(1).

Adran 5 – Canllawiau ynghylch ceisiadau i uno

9. Mae adran 5 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i brif awdurdodau lleol ynghylch cais ar y cyd i uno'n wirfoddol, gan gynnwys canllawiau ar yr amcanion y dylai unrhyw gais geisio eu cyflawni; canllawiau ar faterion y bydd angen i'r prif awdurdodau lleol eu hystyried wrth lunio cais; canllawiau ynghylch sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad y manylir arno yn adran 4; ac unrhyw ganllawiau eraill sy'n berthnasol i wneud cais o dan adran 3(1). Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu dyroddi mewn perthynas â chais i uno'n wirfoddol; mae is-adran (3) yn egluro y gellir bodloni'r gofyniad hwn drwy fod wedi dilyn canllawiau a ddyroddwyd cyn i'r adran hon ddod i rym.

Adran 6 – Pŵer i wneud rheoliadau uno

10. Mae adran 6 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiddymu dwy brif ardal neu ragor, a diddymu eu cynghorau sir/bwrdeistref sirol perthnasol, a sefydlu un brif ardal a chyngor newydd yn eu lle, pan fo cais ar y cyd am uno cynnar gwirfoddol wedi ei wneud iddynt.

Adran 7 – Awdurdodau cysgodol

11. Mae adran 7 yn darparu bod rhaid i reoliadau uno gynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu "awdurdod cysgodol" (a ddiffinnir yn adran 2(7)), sy'n cynnwys holl aelodau'r prif awdurdodau lleol a gyflwynodd y cais ar y cyd i uno'n wirfoddol. Rhaid i'r rheoliadau uno gynnwys darpariaeth ynghylch penodi gweithrediaeth gysgodol gan yr awdurdod cysgodol, a rhaid iddynt bennu swyddogaethau'r awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol ac ymdrin â'r ffordd y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer yn ystod y cyfnod cysgodol. Rhaid iddynt hefyd wneud darpariaeth i'r awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol ddod yn brif awdurdod lleol a'i weithrediaeth yn ystod y "cyfnod cyn yr etholiad" (a ddiffinnir yn is-adran (3)); mae "dyddiad trosglwyddo", a ddefnyddir yn y diffiniad hwnnw, yn cael ei ddiffinio yn adran 2(8).

12. Mae hyn yn golygu mai'r awdurdod cysgodol fydd y prif awdurdod lleol newydd yn y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd prif awdurdod lleol newydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ei swyddogaethau (ar 1 Ebrill 2018, i gyd-daro â blwyddyn ariannol yr awdurdod), a dyddiad cynnal yr etholiadau eu hunain, ar ddydd Iau cyntaf y mis Mai canlynol mae'n debyg (gweler adran 8 ynglŷn â hynny). Mae hyn yn angenrheidiol gan na fydd yr etholiadau i'r prif awdurdod lleol newydd wedi eu cynnal eto, fel y nodwyd. Felly, yn ystod y cyfnod cychwynnol, bydd yr awdurdod newydd wedi ei ffurfio o'r aelodau a etholwyd i'r hen awdurdodau a oedd yn uno, er y bydd yr hen brif awdurdodau lleol sy'n uno wedi peidio â bodoli fel endidau ar wahân, bron yn sicr ar 31 Mawrth 2018, o dan y rheoliadau uno a wnaed oherwydd adran 6(2).

13. Mae'n debyg mai ar 7 Mai 2018 y cynhelir yr etholiadau cyffredin cyntaf (ystyr y term "etholiadau cyffredin" yw ethol yr holl gynghorwyr a fydd yn gwasanaethu ar y cyngor). Felly, yr awdurdod cysgodol fydd y prif awdurdod lleol newydd o 1 Ebrill 2018 (y dyddiad ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau) tan y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiadau cyffredin cyntaf (sef y saib arferol ar ôl etholiadau llywodraeth leol ar gyfer y trosglwyddo swyddogol, yn rhinwedd adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Bryd hynny, y cynghorwyr newydd fydd yn

Section 5 – Guidance about merger applications

9. Section 5 concerns the power of the Welsh Ministers to issue guidance to principal local authorities in respect of a joint application for voluntary merger, including guidance in respect of objectives any proposal should be intended to achieve; guidance on matters the principal local authorities will need to consider in formulating an application; guidance on how the consultation detailed under section 4 should be carried out; and any other guidance pertinent to making an application under section 3(1). Subsection (2) requires principal local authorities to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers in respect of an application for a voluntary merger; subsection (3) explains that this requirement can be met by having had regard to guidance issued before this section came into force.

Section 6 – Power to make merger regulations

10. Section 6 provides the Welsh Ministers with the power, where a joint application for voluntary early merger has been made to them, to make regulations to abolish two or more principal areas and dissolve their respective county/county borough councils and establish a new single principal area and council in their place.

Section 7 – Shadow authorities

11. Section 7 provides that merger regulations must include provision for the establishment of a "shadow authority" (which is defined in section 2(7)), made up of all the members of the principal local authorities which submitted the joint application for voluntary merger. The merger regulations must include provision about the appointment by the shadow authority of a shadow executive, and must specify the functions of the shadow authority and shadow executive and address how these functions will be exercised during the shadow period. They must also make provision for the shadow authority and shadow executive to become the principal local authority and its executive for the "pre-election period" (which is defined in subsection (3)); "transfer date", which is used in that definition, is itself defined in section 2(8)).

12. This means that between the time when a new principal local authority assumes responsibility for its functions (on 1 April 2018, to coincide with the start of the authority's financial year), and the elections themselves taking place probably on the first Thursday in the following May (as to which, see section 8), the shadow authority will become the new principal local authority. This is necessary because, as noted, elections to the new principal local authority will not have occurred. So, for the initial period, the new authority will be constituted of the members who were elected to the old merging authorities, albeit the old, merging principal local authorities will have ceased to exist as separate entities, almost certainly on 31 March 2018, under the merger regulations made because of section 6(2).

13. The first ordinary elections will probably be on 7 May 2018 (the term "ordinary elections" means the election of all the councillors who will serve on the council). So, the shadow authority will be the new principal local authority from 1 April 2018 (the date for the transfer of functions) until the fourth day after the first ordinary elections (which is the normal gap after local government elections for the official handover, by virtue of section 26 of the Local Government Act 1972), whereupon the new councillors will comprise the new principal local authority and the councillors

ffurfio'r prif awdurdod lleol newydd a bydd y cynghorwyr a etholwyd i'r hen gynghorau a ddiddymwyd yn sefyll i lawr. Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 8(c).

14. Mae adran 7(2) a (3) yn diffinio'r "cyfnod cysgodol", sef y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd yr awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol yn arfer swyddogaethau am y tro cyntaf o dan y rheoliadau uno a'r dyddiad y trosglwyddir y cyfrifoldebau llawn ar y dyddiad trosglwyddo (sef 1 Ebrill 2018), a'r "cyfnod cyn yr etholiad", a drafodir uchod.

15. Mae adran 7(4) yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ynghylch eu swyddogaethau i awdurdodau cysgodol a gweithrediaethau cysgodol, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol roi sylw i ganllawiau o'r fath.

Adran 8 – Etholiadau a chynghorwyr

16. Mae adran 8 yn galluogi rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth i ddileu etholiadau cyffredin ar gyfer prif awdurdodau lleol sy'n uno'n wirfoddol ac (o ganlyniad) i ymestyn tymhorau swyddi cynghorwyr yr awdurdodau hyn; darpariaeth i ddatgymhwyso, am gyfnod a bennir yn y rheoliadau uno, y gofynion yn adran 89 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n galw am gynnal is-etholiad i lenwi lleoedd gwag achlysurol (er enghraifft, lle gwag sy'n codi gan fod cynghorydd yn marw neu'n ymddiswyddo) ar gyngor prif awdurdod lleol sy'n uno'n wirfoddol; a darpariaeth i bennu dyddiad yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r prif awdurdodau lleol newydd a thymhorau swyddi'r cynghorwyr a etholir yn yr etholiad hwnnw. Mae'r ddarpariaeth i ddatgymhwyso'r gofyniad i lenwi lle gwag achlysurol yn angenrheidiol er mwyn osgoi sefyllfa lle gall fod angen cynnal is-etholiad ychydig ddyddiau cyn i'r prif awdurdodau lleol presennol gael eu diddymu, a fyddai'n wastraff arian ac adnoddau.

17. Mae adran 8(d) yn galluogi rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth ar gyfer gohirio etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorau cymuned yn y prif awdurdod lleol newydd ac i ymestyn tymhorau swyddi'r cynghorwyr cymuned presennol. Fel rheol, cyfunir etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorau cymuned ag etholiadau cyffredin ar gyfer prif awdurdodau lleol, a'u cynnal yr un pryd, am resymau effeithlonrwydd. Mae adran 8(d), felly, yn galluogi symud etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorau cymuned mewn awdurdodau sy'n uno er mwyn iddynt gyd-daro â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau cyffredin i'r prif awdurdod newydd. Dylai hynny arbed arian ac adnoddau.

Adran 9 – Awdurdodau â model gweithrediaeth maer a chabinet

18. Pan fo un neu ragor o'r prif awdurdodau lleol sy'n uno yn gweithredu o dan drefniant gweithrediaeth maer a chabinet (gweler Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ynglŷn â hynny), neu wedi cyflwyno cynigion i wneud hynny, mae adran 9(1) yn galluogi'r rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r prif awdurdod lleol newydd weithredu trefniant gweithrediaeth maer a chabinet ai peidio. Mae adran 9(2) yn galluogi'r rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth i atal awdurdod sy'n uno rhag datblygu a chymeradwyo cynigion i weithredu trefniant gweithrediaeth maer a chabinet, gan y gallai hynny achosi oedi o ran y broses uno.

originally elected to the old, abolished authorities will stand down. This is subject to section 8(c).

14. Section 7(2) and (3) provide the definitions for "shadow period", being the period from which the shadow authority and shadow executive first exercise functions under the merger regulations, until the transfer of full responsibilities on the transfer date (that is, 1 April 2018), and the "pre-election period", discussed above.

15. Section 7(4) concerns the Welsh Ministers' power to issue guidance to shadow authorities and shadow executives about their functions, and requires the shadow authority and shadow executive to have regard to such guidance.

Section 8 – Elections and councillors

16. Section 8 enables merger regulations to include provision to cancel ordinary elections to principal local authorities merging voluntarily and (as a result) to extend the term of office for the councillors of these authorities; provision to disapply, for a period specified in the merger regulations, the requirements in section 89 of the Local Government Act 1972 which call for a by-election to be held to fill casual vacancies (for example, a vacancy arising due to the death or resignation of a councillor) in the council for a principal local authority merging voluntarily; and provision to set the date for the first ordinary elections to the new principal local authorities and the term of office for the councillors elected through that election. The provision to disapply the requirement to fill a casual vacancy is necessary to prevent a situation whereby a by-election may need to be held just days before the abolition of the existing principal local authorities, which would be a waste of money and resources.

17. Section 8(d) enables merger regulations to include provision to postpone ordinary elections to community councils in the new principal local authority and to extend the terms of office of existing community councillors. The usual practice is for ordinary elections for community councils to be combined with and held at the same time as ordinary elections for principal local authorities for efficiency purposes. Section 8(d) therefore enables ordinary elections to community councils in merging authorities to be moved to coincide with the new date for ordinary elections to the new principal authority, which should save money and resources.

Section 9 – Mayor and cabinet executive model authorities

18. Where one or more of the merging principal local authorities is operating or has made proposals to operate under a mayor and cabinet executive arrangement (as to which, see Part 2 of the Local Government Act 2000), section 9(1) enables the merger regulations to include provision requiring the shadow authority to hold a referendum on whether the new principal local authority should operate a mayor and cabinet executive arrangement. Section 9(2) enables merger regulations to include provision to prevent a merging authority developing and approving proposals to operate a mayor and cabinet executive arrangement, as this may cause delay to the merger process.

Adran 10 – Darpariaethau canlyniadol etc. eraill

19. Mae adran 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys y ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol a throsiannol a'r ddarpariaeth arbed honno sy'n briodol yn eu barn hwy yn y rheoliadau uno, ac i wneud rheoliadau eraill sy'n gymwys yn gyffredinol (sy'n gymwys y tu hwnt i awdurdodau sy'n uno y mae rheoliadau uno penodol yn gymwys iddynt) sy'n cynnwys darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol a throsiannol a darpariaeth arbed at ddibenion rheoliadau uno neu i roi effaith lawn i reoliadau uno. Mae'r adran yn nodi amryw o ddefnyddiau penodol y pwerau hyn, ac yn darparu bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau y caniateir eu trosglwyddo yn unol â'r rheoliadau hyn yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau o dan gontract cyflogi a bod Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246) (TUPE) yn gymwys i drosglwyddiad staff o dan y rheoliadau hyn, ar wahân i reoliadau 4(6) a 10.

20. Mae eithrio rheoliad 4(6) TUPE yn golygu y caiff y rhwymedigaeth ar gyngor a ddiddymir i gael ei erlyn, ei euogfarnu a'i ddedfrydu am unrhyw drosedd ei throsglwyddo i'r cyngor newydd. Heb y ddarpariaeth hon byddai unrhyw rwymedigaeth droseddol sydd ar gyngor a ddiddymir o dan neu mewn cysylltiad â chontractau cyflogaeth a drosglwyddir i'r cyngor newydd, yn diflannu ar 1 Ebrill 2020, pan ddiddymir y cynghorau. Drwy eithrio rheoliad 10 TUPE cedwir hawliau pensiwn galwedigaethol staff sy'n cael eu trosglwyddo o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf. Heb y ddarpariaeth hon, ni fyddai rhwymedigaeth gyfreithiol ar y siroedd newydd i anrhydeddu hawliau, dyletswyddau na rhwymedigaethau pensiwn o dan gontractau cyflogaeth presennol.

21. Ceir tri awdurdod tân ac achub (ATA) cyfunol yng Nghymru ar gyfer ardaloedd y 22 prif awdurdod lleol, a chrëwyd y rhain gan orchmynion cyfuno a wnaed o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947. O dan adran 4 o Ddeddf Tân ac Achub 2004 caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio neu ddiddymu cynlluniau i gyfuno awdurdodau tân ac achub. Ond cyn gwneud hynny, mae adran 4(6) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad gael ei gynnal i'r amrywiad sy'n cael ei gynnig. Mae adran 10(10) yn atal hynny pan fo'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun yn deillio o uno gwirfoddol. Gwneir hynny er mwyn osgoi unrhyw oedi i'r rhaglen uno.

22. Mae adran 10(11) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i amrywio rheoliadau uno (neu reoliadau a wnaed o dan adran 10(11)(a) sy'n amrywio rheoliadau uno) ac i amrywio neu ddirymu rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol a wnaed o dan adran 10(2).

Adrannau 11 i 15 – Pwyllgorau pontio

23. Mae'r adrannau hyn yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio, ynghyd â'u cyfansoddiad a'u swyddogaethau. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Ddeddf, ac i awdurdodau sy'n uno o dan ddeddfwriaeth arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu a basiwyd ganddo (mae hyn oherwydd y diffiniad o "awdurdod sy'n uno" yn adran 2(3)(b)).

Section 10 – Other consequential etc. provisions

19. Section 10 enables the Welsh Ministers to include such supplementary, incidental, consequential, transitional and saving provision as they consider appropriate within the merger regulations, and to make other regulations of general application (that apply beyond merging authorities which specific merger regulations apply to) containing supplementary, incidental, consequential, transitional and saving provision for the purposes of merger regulations or to give full effect to merger regulations. The section sets out a number of specific uses of these powers, and provides that the rights and liabilities which may be transferred in accordance with these regulations include rights and liabilities under a contract of employment and that the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 (S.I. 2006/246) (TUPE) apply to a transfer of staff made under these regulations, apart from regulations 4(6) and 10.

20. Excluding TUPE regulation 4(6) means that the liability of an abolished council to be prosecuted for, convicted of and sentenced for any offence will be transferred to the new council. Without this provision any criminal liability of an abolished council under or in connection with contracts of employment transferred to the new council would disappear on 1 April 2020 when the councils are abolished. Excluding TUPE regulation 10 preserves the occupational pension rights of staff being transferred under or by virtue of the Act. Without this provision, the new counties would not be under a legal obligation to honour pension rights, duties or liabilities under existing contracts of employment.

21. In Wales there are three combined fire and rescue authorities (FRAs) for areas made up of the 22 principal local authority areas, and these were created by combination orders made under the Fire Services Act 1947. Under section 4 of the Fire and Rescue Act 2004 the Welsh Ministers may by order vary or revoke schemes for the combination of fire and rescue authorities. . But before doing so, section 4(6) of the 2004 Act requires the Welsh Ministers to cause an inquiry to be held into the proposed variation. Section 10(10) suspends that where the proposed changes to the scheme are a consequence of a voluntary merger. This is to prevent delays to the merger programme.

22. Section 10(11) enables the Welsh Ministers to, by regulation, vary merger regulations (or regulations made under section 10(11)(a) varying merger regulations) and to vary or revoke regulations of general application made under section 10(2).

Sections 11 to 15 – Transition committees

23. These sections provide for the establishment of transition committees and for their composition and functions. These provisions apply to authorities merging by voluntary merger under the Act, to authorities which merge under other legislation before or passed by the National Assembly for Wales (this is because of the definition of "merging authority" in section 2(3)(b)).

Adran 11 – Pwyllgorau pontio

24. Mae adran 11 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno sefydlu pwyllgor pontio (un ar gyfer pob prif ardal newydd arfaethedig).

Adran 12 – Cyfansoddiad pwyllgorau pontio

25. Mae adran 12 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad y pwyllgorau pontio. Rhaid i bwyllgor pontio gynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau sy'n uno. Rhaid cael nifer cyfartal o aelodau o bob awdurdod sy'n uno ar y pwyllgor, sef o leiaf 5 aelod o bob awdurdod. Rhaid i'r awdurdodau sy'n uno gytuno ar gyfanswm yr aelodau, ond os na ellir dod i gytundeb bydd Gweinidogion Cymru yn pennu maint y pwyllgor. Rhaid i arweinydd gweithredol pob awdurdod sy'n uno fod yn aelod o'r pwyllgor pontio; ac os nad oes gan arweinydd gweithredol awdurdod gyfrifoldeb gweithredol am gyllid rhaid i'r awdurdod sy'n uno o dan sylw benodi'r aelod gweithredol sy'n gyfrifol am gyllid yn ogystal â'r arweinydd gweithredol i'r pwyllgor pontio. Caiff pwyllgor pontio gyfethol personau ychwanegol i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgor, ond heb hawliau pleidleisio. Rhaid i aelodaeth awdurdod sy'n uno o bwyllgor pontio adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod sy'n uno, yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Adran 13 – Swyddogaethau pwyllgorau pontio

26. Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau pwyllgor pontio. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio gynghori'r awdurdodau sy'n uno a'r awdurdod cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd, a rhoi argymhellion iddynt:

- ynghylch trosglwyddo swyddogaethau, staff a hawliau a rhwymedigaethau eiddo mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon o'r awdurdodau sy'n uno i'r prif awdurdod lleol newydd,
- ynghylch sicrhau bod y prif awdurdod lleol newydd a'i staff mewn sefyllfa i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol o'r adeg y mae'n eu hysgwyddo; a
- at unrhyw ddiben arall y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu mewn cyfarwyddydau.

27. Mae adran 13(2) i (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i un neu ragor o bwyllgorau pontio, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt arfer eu swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddyd. Rhaid i bwyllgor pontio gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir a gall Gweinidogion ddirymu neu amrywio cyfarwyddyd ar unrhyw adeg, drwy roi cyfarwyddyd arall.

28. Mae adran 13(5) yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bwyllgorau pontio ynghylch arfer eu swyddogaethau; a rhaid i bwyllgor pontio roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

29. Mae adran 13(6) yn atal pwyllgor archwilio neu bwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod sy'n uno rhag cyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag unrhyw beth y mae'r pwyllgor pontio yn ei wneud. Ni fydd gan bwyllgorau pontio bŵer i wneud penderfyniadau ar faterion polisi, materion strategol na materion gweithredol mewn perthynas â'r awdurdod newydd na'r awdurdod presennol; cynghori a gwneud argymhellion fydd eu swyddogaethau. Gallai'r pwyllgorau

Section 11 – Transition committees

24. Section 11 places a duty on the Welsh Ministers to make regulations to require the merging authorities to establish a transition committee (one for each proposed new principal area).

Section 12 – Composition of transition committees

25. Section 12 makes provision for the composition of the transition committees. A transition committee is to be made up of representatives of the merging authorities. There must be an equal number of members from each merging authority on the committee, with a minimum number of 5 members per authority. The total number of members must be agreed by the merging authorities, but where an agreement cannot be reached, the Welsh Ministers will determine the size of the committee. The executive leader of each of the merging authorities must be a member of the transition committee; and where the executive leader of an authority does not have executive responsibility for finance, both the executive member responsible for finance and the executive leader must be appointed to the transition committee by the merging authority in question. A transition committee may co-opt additional persons to serve as members on the committee, but without voting rights. A merging authority's membership of a transition committee must reflect the political balance of the merging authority, in accordance with the requirements set out in Schedule 1 to the Local Government and Housing Act 1989.

Section 13 – Functions of transition committees

26. Section 13 makes provision for the functions of a transition committee. It requires a transition committee to advise and make recommendations to the merging authorities and to the shadow authority for the new principal area :

- on the economic, effective and efficient transfer of functions, staff and property rights and liabilities from the merging authorities to the new principal local authority,
- on ensuring the new principal local authority and its staff are in a position to carry out its functions effectively from the time when it assumes them; and
- for any other purpose which the Welsh Ministers specify in directions.

27. Section 13(2) to (4) enables the Welsh Ministers to give a direction to one or more transition committees, requiring them to exercise their functions in accordance with the direction. A transition committee must comply with any direction given and a direction can, at any time, be revoked or varied by the Welsh Ministers by giving another direction.

28. Section 13(5) concerns the power of Welsh Ministers to issue guidance to transition committees on the exercise of their functions; and a transition committee must have regard to any such guidance.

29. Section 13(6) prevents an audit committee or an overview or scrutiny committee of a merging authority from carrying out its functions in respect of anything done by the transition committee. Transition committees will not be empowered to take decisions on policy, strategic or operational matters in respect of the new or existing authority; their roles will be advisory and to make recommendations. The relevant

archwilio a chraffu perthnasol ystyried unrhyw benderfyniadau gan awdurdodau newydd neu awdurdodau presennol yng ngoleuni cyngor neu argymhellion y pwyllgorau pontio.

Adran 14 – Is-bwyllgor i bwyllgorau pontio

30. Mae adran 14 yn galluogi pwyllgor pontio i sefydlu un is-bwyllgor neu ragor er mwyn cynghori'r pwyllgor pontio ar faterion y mae'r pwyllgor pontio yn eu hatgyfeirio ato. Mater i'r pwyllgor pontio fydd pennu aelodaeth is-bwyllgor, ond ni fydd gan unrhyw berson a benodir nad yw'n aelod o un o'r awdurdodau lleol sy'n uno yr hawl i bleidleisio ar faterion sydd gerbron yr is-bwyllgor.

Adran 15 – Darparu cyllid, cyfleusterau a gwybodaeth i bwyllgorau pontio

31. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno dalu costau'r pwyllgorau pontio. Rhaid i'r awdurdodau sy'n uno gytuno sut i ddosrannu'r gost rhwng pob un o'r awdurdodau sy'n uno, ac os na ellir dod i gytundeb bydd Gweinidogion Cymru yn pennu pa gyfran o'r costau y bydd pob awdurdod yn ei thalu. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno ddarparu cyfleusterau, adnoddau gan gynnwys staff, a gwybodaeth y gwneir cais rhesymol amdani, i'r pwyllgor pontio neu unrhyw is-bwyllgor i bwyllgor pontio, i alluogi'r pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.

Adrannau 16 i 24 – Trefniadau etholiadol etc. ar gyfer y prif ardaloedd newydd

32. Mae adrannau 16 i 24 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) a chynnal adolygiadau cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd newydd arfaethedig. Diben adolygiad cychwynnol yw gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol prif ardal arfaethedig. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol, caiff y Comisiwn (yn ogystal â gwneud argymhellion ynghylch trefniadau etholiadol) hefyd gynnig ac argymell newidiadau ar lefel y gymuned, ond dim ond pan fo newidiadau o'r fath yn deillio o'r hyn a gynigir neu a argymhellir ar gyfer trefniadau'r brif ardal arfaethedig. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Ddeddf ac i uno sy'n cael effaith o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall. Nodir strwythur a swyddogaethau'r Comisiwn yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a'i rôl yw adolygu'r holl ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru yn gyson, yn ogystal â threfniadau etholiadol y prif ardaloedd.

33. Ar hyn o bryd, o dan adran 29 o Ddeddf 2013, gall y Comisiwn gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardal *sydd eisoes yn bodoli*. Mae adran 16 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o drefniadau etholiadol prif ardal *arfaethedig*.

34. Mae adran 16(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau i'r Comisiwn i gynnal adolygiadau cychwynnol o brif ardal arfaethedig. Mae is-adrannau (2) i (5) o adran 16 yn diffinio'r termau allweddol a ddefnyddir yn yr adrannau hyn o'r Ddeddf. "Adolygiad cychwynnol" o brif ardal arfaethedig yw'r ymarferiad cyntaf o'r fath ar ran y Comisiwn mewn perthynas â'r ardal o dan sylw. Newidiadau i ardaloedd cymuned a chynghorau o fewn prif ardal yw "newidiadau canlyniadol perthnasol". Mae "trefniadau etholiadol" yn cyfeirio at nifer yr aelodau ar gyngor a'u dosbarthiad rhwng wardiau etholiadol (neu wardiau cymuned yn achos cyngor cymuned). Gall wardiau etholiadol fod yn rhai "un aelod", pan gaiff ei

audit and scrutiny committees would be able to consider any decisions taken by new or existing authorities in light of advice or recommendations from the transition committees.

Section 14 – Sub-committee of transition committees

30. Section 14 enables a transition committee to establish one or more sub-committees to provide the transition committee with advice on matters the transition committee refers to it. The membership of a sub-committee is to be determined by the transition committee, but any appointed person who is not a member of one of the merging local authorities will not be entitled to vote on matters before the sub-committee.

Section 15 – Provision of funding, facilities and information to transition committees

31. Section 15 requires the merging authorities to meet the costs of the transition committee. The merging authorities must agree the apportionment of the cost between each of the merging authorities, and where an agreement cannot be reached, the Welsh Ministers will determine the proportion of cost to be borne by each authority. This section also requires the merging authorities to provide facilities, resources including staff, and information reasonably requested, to the transition committee or any sub-committee of a transition committee to enable the committee to undertake its functions.

Sections 16 to 24 – Electoral arrangements etc. for the new principal areas

32. Sections 16 to 24 make provision in respect of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (the Commission) and the conduct of initial reviews of electoral arrangements for proposed new principal areas. The purpose of an initial review is to make recommendations for the electoral arrangements for a proposed principal area. In undertaking an initial review, the Commission may (as well as making recommendations about electoral arrangements) also propose and recommend changes at a community level, but only where such changes are consequential on what is proposed or recommended for the proposed principal area's arrangements. These provisions apply in relation to authorities merging by voluntary merger under the Act and mergers given effect by other legislation. The Commission's structure and functions are set out in the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 and its role is to keep all local government areas in Wales and the electoral arrangements for the principal areas under review.

33. Currently, under section 29 of the 2013 Act, the Commission can conduct reviews of the electoral arrangements of an *existing* principal area. Section 16 enables the Welsh Ministers to direct the Commission to conduct an initial review of the electoral arrangements of a *proposed* principal area.

34. Section 16(1) enables Welsh Ministers to issue directions to the Commission to carry out initial reviews of a proposed principal area. Subsections (2) to (5) of section 16 provide definitions of key terms used within these sections of the Act. An "initial review" of a proposed principal area is the first such exercise of the Commission in respect of the area concerned. "Relevant consequential changes" are changes to community areas and councils within a principal area. "Electoral arrangements" refers to the number of members in a council and their distribution into electoral wards (or community wards in the case of a community council). Electoral wards

gynrychioli gan un cynghorydd yn unig, neu'n rhai "amlaelod", pan fo mwy nag un aelod.

Adran 17 – Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Comisiwn

35. Mae adran 17 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion y mae'n rhaid i gyfarwyddyd a wneir o dan adran 16 ymdrin â hwy, neu y gall ymdrin â hwy. O fewn unrhyw gyfarwyddyd o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru bennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r Comisiwn ddarparu ei adroddiad ar ei adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig. Caiff cyfarwyddyd bennu materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gynnal adolygiad cychwynnol. Caniateir i Weinidogion Cymru hefyd ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch cynnal adolygiadau cychwynnol, gan gynnwys ym mha drefn y mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal yr adolygiadau unigol; fodd bynnag, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw gymdeithas y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn cynrychioli awdurdodau lleol, cyn dyroddi cyfarwyddyd cyffredinol.

36. Mae adran 17 hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd a ddyroddir i'r Comisiwn drwy gyfarwyddyd dilynol. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd pellach o dan adran 16 i'r Comisiwn, mewn perthynas â phrif ardal arfaethedig, wedi i'r Comisiwn gynnal adolygiad cychwynnol o'r brif ardal arfaethedig honno, ac adrodd arno.

37. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan adran 16 neu 17 a rhaid iddo hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch adolygiadau cychwynnol o brif ardaloedd arfaethedig.

Adran 18 – Cynnal adolygiad cychwynnol

38. Mae adran 18 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal adolygiad cychwynnol gan y Comisiwn o brif ardal arfaethedig. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus, a chaiff cyfarwyddydau a chanllawiau a ddyroddir o dan adran 17 bennu'r hyn y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.

39. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau, i'r graddau y mae'n bosibl, bod y gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i aelodau etholedig ar gyfer prif ardal arfaethedig yr un fath ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal arfaethedig, gan arwain at sefyllfa lle bydd pob aelod etholedig yn cynrychioli'r un nifer o etholwyr. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd roi sylw i ddymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sy'n hawdd i'w hadnabod, ac a fydd yn parhau i fod felly, a pheidio â thorri cysylltiadau lleol presennol wrth bennu'r ffiniau hynny. Rhaid i'r Comisiwn hefyd ystyried gwahaniaethau yn nifer yr etholwyr cymwys a'r niferoedd gwirioneddol o bersonau sydd wedi eu cofrestru i bleidleisio, ynghyd ag unrhyw newidiadau tebygol yn nifer neu ddosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol (fel y'i diffinnir yn is-adran (9)) o fewn prif ardal arfaethedig sy'n debyg o ddigwydd o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi argymhellion yr adroddiad.

may be either "single member" where it is represented by only one councillor or "multi-member" where there is more than one.

Section 17 – Directions and guidance to Commission

35. Section 17 makes provision for the matters which must or can be addressed within a direction made under section 16. Within any such direction, the Welsh Ministers must specify the date by which the Commission must provide its report on its initial review of a proposed principal area. A direction may specify matters to which the Commission must have regard when conducting an initial review. The Welsh Ministers are also enabled to issue general directions to the Commission on carrying out initial reviews, including the order in which the Commission must carry out the individual reviews; however, before issuing a general direction, the Welsh Ministers must consult the Commission and any association which the Welsh Ministers consider to be representative of local authorities.

36. Section 17 also provides that the Welsh Ministers may vary or revoke any direction issued to the Commission by way of a subsequent direction. It also enables the Welsh Ministers to issue a further direction under section 16 to the Commission in relation to a proposed principal area after the Commission has conducted and reported on an initial review of that proposed principal area.

37. The Commission is required to comply with a direction given to it under section 16 or 17 and must also have regard to any guidance the Welsh Ministers issue about initial reviews of proposed principal areas.

Section 18 – Conduct of initial review

38. Section 18 makes provision for the conduct of an initial review of a proposed principal area by the Commission. When undertaking an initial review the Commission must seek to ensure effective and convenient local government, and directions and guidance issued under section 17 may specify what this means in practice.

39. In conducting an initial review, the Commission must aim to ensure that the ratio of local government electors to elected members for a proposed principal area is, as much as possible, the same in every electoral ward of the proposed principal area, resulting in each elected member representing the same number of electors. The Commission is also required to have regard to the desirability of fixing electoral ward boundaries which are and will remain easily identifiable, and of not breaking existing local ties when fixing those boundaries. Differences in the number of eligible electors and the actual number of persons registered to vote, along with any likely change in the number or distribution of local government electors (as defined in subsection (9)) within a proposed principal area that is likely to take place within 5 years of the recommendations of the report being published, must also be taken into account by the Commission.

40. Os yw'r Comisiwn o'r farn bod "newidiadau canlyniadol perthnasol" (a drafodir uchod mewn perthynas ag adran 16) yn briodol mewn perthynas â chymunedau a fydd yn ardal y brif ardal arfaethedig, rhaid iddo ystyried materion tebyg i'r rhai sy'n gymwys i'w adolygiad o'r trefniadau ar lefel y brif ardal. Nodir yr ystyriaethau mewn cysylltiad â newidiadau canlyniadol o'r fath yn is-adrannau (5) i (8) o adran 18.

Adran 19 – Y weithdrefn ragadolygu

41. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau, yn ystod y cyfnod cyn cynnal adolygiad cychwynnol, fod yr "ymgyngoreion mandadol", fel y'u diffinnir gan is-adran (3), ac unigolion eraill sydd â buddiant yn yr adolygiad, yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal yr adolygiad ac unrhyw gyfarwyddydau eraill a ddyroddwyd sy'n gysylltiedig â'r adolygiad. Yn ystod y cyfnod rhagadolygu mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn ymgynghori â'r ymgyngoreion mandadol ar y weithdrefn a'r fethodoleg y bwriedir eu dilyn wrth gynnal yr adolygiad cychwynnol, yn enwedig o ran y dull arfaethedig o bennu nifer priodol aelodau'r prif awdurdod lleol yn y brif ardal arfaethedig.

Adran 20 – Ymgynghori ac ymchwilio

42. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig rhaid i'r Comisiwn gynnal pa bynnag ymchwiliad sy'n briodol yn ei farn. Rhaid iddo hefyd baratoi adroddiad sy'n cynnwys y cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol y brif ardal arfaethedig, ac unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys manylion yr adolygiad ei hun.

43. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad cychwynnol ar-lein, ei anfon at Weinidogion Cymru a'r ymgyngoreion mandadol, sicrhau ei fod ar gael i edrych arno mewn mannau penodedig yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau (y mae'n rhaid iddo fod yn gyfnod heb fod yn llai na 6 wythnos a heb fod yn fwy na 12 wythnos), hysbysu unrhyw un y mae'n ei ystyried yn briodol sut i gael copi o'r adroddiad a gwahodd sylwadau ar ei gynigion yn yr adroddiad hwnnw gan Weinidogion Cymru, yr ymgyngoreion mandadol ac unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

Adran 21 – Adrodd ar adolygiad cychwynnol

44. Yn dilyn y cyfnod ar gyfer sylwadau mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried ei gynigion yng ngoleuni unrhyw sylwadau a gafodd. Yna, rhaid iddo lunio adroddiad pellach sy'n cynnwys yr argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol y brif ardal arfaethedig, unrhyw argymhellion canlyniadol ar gyfer ffiniau a wardiau cymuned, manylion yr adolygiad a'r ymgynghoriad dilynol, a manylion unrhyw newidiadau a wnaed i'r adroddiad cychwynnol yng ngoleuni unrhyw sylwadau a ddaeth i law.

45. Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'r adroddiad a'i argymhellion i Weinidogion Cymru, cyhoeddi'r adroddiad ar-lein, sicrhau ei fod ar gael mewn mannau penodedig i edrych arno am 6 wythnos o leiaf, a hynny'n ddi-dâl, anfon copi o'r adroddiad at yr ymgyngoreion mandadol a'r Arolwg Ordnans, a hysbysu'r personau hynny a gyflwynodd dystiolaeth neu a roddodd sylwadau mewn cysylltiad â'r adroddiad cychwynnol sut i gael copi o'r adroddiad.

40. If the Commission considers that "relevant consequential changes" (addressed above in relation to section 16) are appropriate in relation to communities which will be in the area of the proposed principle area, it must take account of considerations similar to those which apply in relation to its review of arrangements at the principal area level. The considerations in respect of such consequential changes are set out in subsections (5) to (8) of section 18.

Section 19 – Pre-review procedure

41. Section 19 requires the Commission, during the period before conducting an initial review, to make "mandatory consultees", as defined by subsection (3), and other individuals interested in the review, aware of the direction from the Welsh Ministers to conduct the review and any other directions issued relating to the review. During the pre-review period the Commission is also required to consult the mandatory consultees on the intended procedure and methodology for the initial review, particularly in relation to the proposed method of determining the appropriate number of members of the principal local authority for the proposed principal area.

Section 20 – Consultation and investigation

42. In conducting an initial review of a proposed principal area the Commission must undertake whatever investigations it considers appropriate and prepare a report containing the proposals for the electoral arrangements of the proposed principal area, and any proposals for relevant consequential changes. The report must also contain details of the review itself.

43. The Commission is required to publish online its initial report, send it to the Welsh Ministers and the mandatory consultees, make it available for inspection in specified places during the period for representations (which must be a period of not less than 6 weeks and not more than 12 weeks), inform anyone it considers appropriate of how to obtain a copy of the report and invite representations on its proposals within that report from the Welsh Ministers, the mandatory consultees and any other person it considers appropriate.

Section 21 – Reporting on initial review

44. Following the period for representations the Commission is required to consider its proposals in light of any representations it has received, and must then prepare a further report including the recommendations for the electoral arrangements for the proposed principal area, any consequential recommendations to community boundaries and wards, details of the review and subsequent consultation, and details of any changes made to the initial report in light of any representations made to it.

45. The Commission must submit the report and its recommendations to the Welsh Ministers, publish the report online, make it available for inspection in specified places for at least 6 weeks without charge, send a copy of the report to the mandatory consultees and Ordnance Survey, and inform those persons who submitted evidence or made representations in connection with the initial report of how to obtain a copy of the report.

46. Fel arfer, ni chaniateir i unrhyw argymhellion gael eu gwneud na'u cyhoeddi mewn cysylltiad ag adolygiadau ar gyfer trefniadau etholiadol yn ystod y 9 mis cyn etholiad cyffredin. Fodd bynnag, gan ei bod yn debygol y bydd y cyfnod y bydd y Comisiwn yn cynnal adolygiadau o brif ardaloedd arfaethedig yn cynnwys y cyfnod sy'n arwain at etholiadau cyffredin 2017, mae adran 21(5) yn atal y ddarpariaeth berthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 o ran argymhellion gan y Comisiwn o dan adran 21 mewn perthynas â phrif ardal arfaethedig. Heb yr ataliad hwn, byddai'n anodd dros ben i'r Comisiwn gynnal ei raglen adolygu mewn da bryd cyn etholiadau cyntaf yr awdurdodau cysgodol.

Adran 22 – Gweithredu gan Weinidogion Cymru

47. Mae adran 22 yn galluogi Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael adroddiad pellach gan y Comisiwn, i wneud rheoliadau er mwyn gweithredu'r argymhellion, neu ffurf addasedig ar yr argymhellion, sydd yn yr adroddiad pellach. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath hyd o leiaf 6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad pellach. Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno addasu'r argymhellion cyn eu gweithredu, rhaid iddynt ystyried y materion a nodir yn adran 18 a rhaid iddynt fod wedi eu bodloni bod yr addasiad yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth berthnasol am yr argymhellion sy'n rhesymol ofynnol, a chaiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu rheoliadau sy'n gweithredu argymhellion drwy reoliadau dilynol.

Adran 23 – Rheoliadau etholiadol os na wneir unrhyw argymhellion

48. Pe byddai'r Comisiwn yn methu â darparu adroddiad pellach sy'n cynnwys argymhellion o fewn y terfynau amser a bennir gan Weinidogion Cymru yn eu cyfarwyddyd cychwynnol, mae adran 23 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal arfaethedig, ynghyd ag unrhyw newidiadau canlyniadol perthnasol, yn niffyg argymhellion gan y Comisiwn. Pan fo amgylchiadau o'r fath yn codi, rhaid i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a gasglwyd hyd yr adeg honno mewn cysylltiad â'r adolygiad cychwynnol. Byddai hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal ei adolygiad cyntaf o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal arfaethedig, fel sy'n ofynnol gan adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad cyffredin cyntaf y cyngor ar gyfer yr ardal honno, a chyn etholiadau nesaf y cyngor ar gyfer yr ardal honno beth bynnag.

49. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau dilynol, amrywio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

Adran 24 – Cyfnodau adolygu yn y dyfodol

50. Mae adran 29(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob un o'r prif ardaloedd o leiaf unwaith bob 10 mlynedd, gan ddechrau o'r diwrnod y daeth yr adran honno i rym (sef 30 Medi 2013, o dan adran 75(2)(b) o'r Ddeddf honno). Mae adran 24 yn galluogi Gweinidogion Cymru i symud y dyddiad ar gyfer dechrau cyfnod adolygu 10 mlynedd y Comisiwn, fel y bydd yn rhedeg o ddyddiad newydd unwaith y bydd y rhaglen uno awdurdodau lleol wedi ei chwblhau.

46. Ordinarily no recommendations are to be made or published in connection with reviews relating to electoral arrangements in the 9 months before an ordinary election. However, because the period of time during which the Commission will be conducting reviews of proposed principal areas is likely to include the period leading up to the ordinary elections of 2017, section 21(5) suspends the relevant provision of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 in relation to recommendations made by the Commission under section 21 in relation to a proposed principal area. Without this suspension, it would be extremely difficult for the Commission to carry out its review programme in good time before the first elections of Shadow Authorities.

Section 22 – Implementation by Welsh Ministers

47. Section 22 enables the Welsh Ministers, having received a further report from the Commission, to make regulations to implement the recommendations, or a modified form of the recommendations, contained within the further report. Such regulations may not be made until at least 6 weeks after the further report is published. If the Welsh Ministers wish to modify the recommendations before implementing them, they must consider the matters set out in section 18 and must be satisfied that the modification is appropriate. The Commission is required to provide the Welsh Ministers with any relevant information about the recommendations that they may reasonably require, and the Welsh Ministers are able to vary or revoke regulations implementing recommendations through subsequent regulations.

Section 23 – Electoral regulations if no recommendations made

48. Should the Commission fail to provide a further report including recommendations within the time limit set by the Welsh Ministers in their initial direction, section 23 enables the Welsh Ministers to make regulations setting out the electoral arrangements of a proposed principal area, and any relevant consequential changes, in the absence of recommendations from the Commission. Where such circumstances arise, the Commission must provide the Welsh Ministers with any information gathered to date in respect of the initial review. The Commission would also be required to conduct its first review of the electoral arrangements for the proposed principal area, as required by section 29 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, as soon as possible after the first ordinary election of the council for that area, and in any event before the next elections of the council for that area.

49. The Welsh Ministers may, by subsequent regulations, vary or revoke regulations made under this section.

Section 24 – Future review periods

50. Section 29(3) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, requires the Commission to conduct a review of the electoral arrangements of each of the principal areas at least once every 10 years, starting from the day that section came into force (which was 30 September 2013, under section 75(2)(b) of that Act). Section 24 enables the Welsh Ministers to re-set the start of the Commission's 10-year review period, so that it will run from a new date following the completion of local authority mergers.

Adrannau 25 i 28 – Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol etc. ar gyfer prif awdurdodau lleol newydd

51. Mae adrannau 25 i 27 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) a'i swyddogaethau o ran taliadau i aelodau o awdurdodau cysgodol a phrif awdurdodau lleol newydd, pa un a sefydlir y rhain drwy uno gwirfoddol neu fel arall. Sefydlwyd y Panel yn 2007 ac mae cyfrifoldeb statudol arno i bennu ystod a lefel y lwfansau sy'n daladwy i aelodau etholedig prif awdurdodau lleol, aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a chynghorau cymuned a thref.

52. Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pontio wneud argymhellion ynghylch y datganiadau polisi tâl y mae'n rhaid i'r awdurdodau cysgodol eu llunio.

Adran 25 - Cyfarwyddydau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gyflawni swyddogaethau perthnasol

53. Mae adran 25 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau o dan adrannau 142 a 143 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, (sy'n ymwneud â'r taliadau y gellir eu gwneud neu y mae rhaid eu gwneud i aelodau o awdurdodau lleol penodol a'u hawl i bensiynau), mewn perthynas ag aelodau o awdurdod cysgodol, ac aelodau o brif awdurdod lleol arfaethedig yn y flwyddyn ariannol gyntaf y mae'n gweithredu.

54. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch taliadau i aelodau o awdurdodau cysgodol, mae adran 25(4)(a) yn cael yr effaith o'i gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried effaith ariannol gwneud hynny ar yr awdurdodau cysgodol eu hunain; bydd ystyriaeth debyg yn gymwys i benderfyniadau ar gyfer prif awdurdodau lleol newydd.

55. Effaith adran 25(4)(b) yw y bydd yn ofynnol i'r Panel osod gofynion er mwyn osgoi dyblygu taliadau i'r rheini sy'n aelodau o fwy nag un awdurdod ar yr un pryd (megis bod yn aelodau o awdurdod sy'n uno ac o'r awdurdod cysgodol cysylltiedig ar yr un pryd).

56. Yn achos uno gwirfoddol, daw'r prif awdurdod lleol newydd i fodolaeth ar 1 Ebrill 2018. O dan reoliadau a wneir o dan adran 7(1)(f), daw aelodau'r awdurdod cysgodol yn aelodau o'r prif awdurdod lleol newydd am yr ychydig wythnosau cyntaf, gan arfer holl swyddogaethau'r awdurdod newydd hwnnw. Yn dilyn yr etholiadau cyntaf i'r awdurdod newydd (a gynhelir ym mis Mai 2018, fwy na thebyg), bydd corff newydd o aelodau etholedig yn cymryd yr awenau, a bydd yr aelodau a etifeddwyd o'r awdurdod cysgodol yn rhoi'r gorau iddi. Mae is-adran 25(5) yn ymdrin â hyn drwy alluogi'r Panel, wrth wneud penderfyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf yr awdurdod newydd, i wneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer y cyfnod cyn yr etholiadau cyntaf a'r cyfnod ar ôl hynny.

Sections 25 to 28 - Remuneration etc. arrangements for new principal local authorities

51. Sections 25 to 27 make provision in respect of the Independent Remuneration Panel for Wales (the Panel) and its functions in relation to payments to members of shadow authorities and new principal local authorities, whether established through voluntary merger or otherwise. The Panel was established in 2007 and has statutory responsibility for determining the range and level of allowances payable to elected members of principal local authorities, members of National Park Authorities, Fire and Rescue Authorities and community and town councils.

52. Section 28 requires transition committees to make recommendations about the pay policy statements that the shadow authorities must prepare.

Section 25 – Directions to the Independent Remuneration Panel for Wales to perform relevant functions

53. Section 25 enables the Welsh Ministers to direct the Panel to carry out its functions under sections 142 and 143 of the Local Government (Wales) Measure 2011, (which concern the payments which may or must be made to members of certain local authorities and their entitlement to pensions), in relation to members of a shadow authority, and members of a proposed principal local authority for the first financial year of its operation.

54. In making determinations about payments to members of shadow authorities, section 25(4)(a) has the effect of requiring the Panel to take into account the financial impact of doing so on the shadow authorities themselves; a similar consideration will apply to making determinations for new principal local authorities.

55. Section 25(4)(b) has the effect that the Panel will be required to impose requirements to avoid the duplication of payments to those who are members of more than one authority at the same time (such as being members of a merging authority and of the related shadow authority at the same time).

56. In the case of a voluntary merger, the new principal local authority will come into being on 1 April 2018. Under regulations made under section 7(1)(f), the members of the shadow authority will become the members of the new principal local authority for the first few weeks of its existence, exercising the functions of that new authority. Following the first elections to the new authority (probably to be held in May 2018), a new body of elected members will take over, and the members inherited from the shadow authority will stand down. Subsection 25(5) addresses this by enabling the Panel, in making determinations for the first financial year of the new authority, to make different determinations for the periods before and after the first set of elections.

Adran 26 – Adroddiadau'r Panel

57. Mae adran 26 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gynnwys ei benderfyniadau cyntaf ar dâl a phensiynau ar gyfer aelodau o brif awdurdod lleol newydd yn adroddiad blynyddol y Panel sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol gyntaf yr awdurdod. Mae is-adran (1) yn cyfeirio at adran 146(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; golyga hyn bod rhaid i'r panel gynnwys yn yr adroddiad ei benderfyniadau ar daliadau i aelodau o awdurdodau cysgodol ar gyfer busnes swyddogol ac ar gyfer absenoldeb teuluol (ymdrinnir â hyn yn adran 142(2) i (4) o Fesur 2011). Rhaid i'r Panel hefyd gynnwys ei benderfyniadau ar gyfer yr aelodau o awdurdod y bydd pensiynau yn daladwy iddynt, neu mewn perthynas â hwy.

58. Caniateir i'r materion sy'n ymwneud ag aelodau o awdurdod cysgodol gael eu cynnwys naill ai mewn adroddiad blynyddol neu mewn adroddiad atodol. Os cânt eu cynnwys mewn adroddiad atodol, fodd bynnag, rhaid ei gyhoeddi yn ddim hwyrach na 6 wythnos cyn i'r awdurdod cysgodol gael ei sefydlu neu ei ethol.

Adran 27 - Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Panel

59. Mae adran 27 yn darparu y caniateir amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd o dan adran 25 gan gyfarwyddyd dilynol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 25. Mae hefyd yn ymdrin â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r Panel ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

Adran 28 – Datganiadau polisi tâl

60. Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cysgodol lunio a chymeradwyo datganiad polisi tâl (fel y darperir yn adrannau 38 a 39 o Ddeddf Lleoliaeth 2011) ar gyfer y cyfnod a nodir yn is-adran (3). Y diben yw sicrhau bod gan yr awdurdod cysgodol ddatganiad cyhoeddus sy'n cyfleu polisïau'r awdurdod ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu yn y dyfodol, yn enwedig ei brif swyddogion (a drafodir isod) a'i gyflogeion sydd ar y cyflogau isaf. Er mwyn cynorthwyo'r awdurdod cysgodol, mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio gyhoeddi argymhellion ar gyfer yr awdurdod cysgodol ar y datganiad polisi tâl sydd i'w baratoi gan yr awdurdod cysgodol yn ddim hwyrach na 42 o ddiwrnodau cyn y diwrnod y sefydlir neu yr etholir yr awdurdod cysgodol. Gwaherddir awdurdodau cysgodol rhag penodi prif swyddog hyd nes y bydd y datganiad polisi tâl ar gyfer y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3)(a) wedi ei lunio a'i gymeradwyo.

61. Mae i'r term "prif swyddog" ("chief officer") yr un ystyr ag yn adran 43(2) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac mae'n cynnwys y swyddogion a ganlyn o brif awdurdod lleol:

- y pennaeth gwasanaeth cyflogedig (a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989"))
- swyddog monitro (a ddynodir o dan adran 5(1) o Ddeddf 1989)
- prif swyddog statudol a grybwyllir yn adran 2(6) o Ddeddf 1989, hy:
    - cyfarwyddwr gwasanaethau plant
    - cyfarwyddwr iechyd y cyhoedd
    - prif swyddog addysg
    - cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol

Section 26 – Reports of Panel

57. Section 26 requires the Panel to include its first determinations on pay and pensions for members of a new principal local authority in the annual report of the Panel relating to the first financial year of the authority. Subsection (1) refers to section 146(3) of the Local Government (Wales) Measure 2011; this means that the Panel must include in the report its determinations on payments to members of shadow authorities for official business and for family absence (this is addressed in section 142(2) to (4) of the 2011 Measure). The Panel must also include its determinations on the members of an authority to whom, or in respect of whom, pensions will be payable.

58. The matters relating to members of a shadow authority may be included in either an annual or supplementary report. However, if they are included in a supplementary report, it must be published no later than 6 weeks before the shadow authority is established or elected.

Section 27 - Directions and guidance to Panel

59. Section 27 provides that a direction under section 25 may be varied or revoked by a subsequent direction, and requires the Panel to comply with any direction given by the Welsh Ministers under section 25. It also addresses the Welsh Ministers' power to issue guidance to the Panel about exercising its functions under sections 25 and 26, and requires the Panel to have regard to any such guidance.

Section 28 - Pay policy statements

60. Section 28 requires a shadow authority to prepare and approve a pay policy statement (as provided for in sections 38 and 39 of the Localism Act 2011) for the period set out in subsection (3). The purpose is to ensure the shadow authority has in place a public statement which articulates the authority's policies on a range of issues relating to the pay of its future workforce, particularly its chief officers (addressed below) and its lowest paid employees. To assist the shadow authority, subsection (1) requires a transition committee to publish recommendations for the shadow authority on the pay policy statement to be prepared by the shadow authority, no later than 42 days before the day the shadow authority is established or elected. Shadow authorities are prohibited from appointing a chief officer until the pay policy statement for the period mentioned in subsection (3)(a) has been prepared and approved.

61. The term "chief officer" has the same meaning as in section 43(2) of the Localism Act 2011 and covers the following officers of a principal local authority:

- the head of paid service (designated under section 4(1) of the Local Government and Housing Act 1989 ("the 1989 Act"))
- a monitoring officer (designated under section 5(1) of the 1989 Act)
- a statutory chief officer mentioned in section 2(6) of the 1989 Act, i.e.:
    - director of children's services
    - director of public health
    - chief education officer

- swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr awdurdod
- prif swyddog anstatudol a grybwyllir yn adran 2(7) o Ddeddf 1989, hy:
  - person y mae'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn uniongyrchol gyfrifol amdano
  - person y mae'n ofynnol iddo, o ran ei holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf ohonynt, adrodd yn uniongyrchol i'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig, neu sy'n atebol yn uniongyrchol iddo
  - unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo, o ran ei holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf ohonynt, adrodd yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol ei hun neu i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod, neu sy'n atebol yn uniongyrchol iddynt
- dirprwy brif swyddog a grybwyllir yn adran 2(8) o Ddeddf 1989, hy, person y mae'n ofynnol iddo, o ran ei holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf ohonynt, adrodd yn uniongyrchol i un neu ragor o'r prif swyddogion statudol neu anstatudol, neu sy'n atebol yn uniongyrchol iddynt. Nid yw hyn yn cynnwys person y mae ei ddyletswyddau yn rhai ysgrifenyddol neu glerigol yn unig, neu sydd fel arall o natur gwasanaethau cymorth.

62. Mae is-adran (6) yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol ynghylch cyflawni eu dyletswyddau o dan yr adran hon. Rhaid i'r awdurdodau cysgodol a'r pwyllgorau pontio roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Adrannau 29 i 36 – Cyfyngu ar drafodion a recriwtio etc. gan awdurdodau sy'n uno

63. Mae adrannau 29 i 36 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfyngu ar weithgareddau penodol awdurdodau lleol sy'n uno, a rheoli'r gweithgareddau hynny. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Ddeddf, ac i uno sy'n cael effaith o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu a basiwyd ganddo (mae hyn oherwydd y diffiniad o "awdurdod sy'n uno" yn adran 2(3)(b)).

Adran 29(1) – Cyfarwyddydau mewn perthynas â gweithgareddau cyfyngedig

64. O dan adran 29(1) caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod sy'n uno i beidio â chynnal "gweithgaredd cyfyngedig" heb naill ai ystyried barn, neu gael cydsyniad ysgrifenedig, person a bennir yn y cyfarwyddyd. Y personau y caniateir eu pennu yw unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol. Gall hyn gynnwys Gweinidogion Cymru eu hunain, pwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol (adran 30(3)).

65. Mae adran 29(2) yn disgrifio'r gweithgareddau cyfyngedig y gellir dyroddi cyfarwyddyd barn/cydsynio yn eu cylch:

- gwerthu neu brynu tir, buddiannau mewn tir, neu ganiatáu opsiwn i brynu tir neu fuddiannau mewn tir (trothwy – dros £150,000);
- ymrwymo i gontractau neu gytundebau sy'n ymestyn am gyfnod y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu y gellid eu hymestyn felly (trothwy – dros £500,000 os yw'n gontract cyfalaf; £150,000 ar gyfer pob contract arall);
- gwneud caffaeliadau penodol o gyfalaf cyfrannau neu fenthyciad (trothwy – dros £500,000);

  - director of social services
  - officer responsible for the administration of the authority's financial affairs
- a non-statutory chief officer mentioned in section 2(7) of the 1989 Act, i.e.:
  - a person for whom the head of paid service is directly responsible
  - a person who, as respects all or most of their duties, is required to report directly or is directly accountable to the head of paid service
  - any person who, as respects all or most of their duties, is required to report directly or is directly accountable to the local authority themselves or any committee or sub-committee of the authority
- a deputy chief officer mentioned in section 2(8) of the 1989 Act, i.e. a person who, as respects all or most of their duties, is required to report directly or is directly accountable to one or more of the statutory or non-statutory chief officers. This does not include a person whose duties are solely secretarial or clerical or otherwise in the nature of support services.

62. Subsection (6) concerns the Welsh Ministers' power to issue guidance to transition committees and shadow authorities in respect of the performance of their duties under this section, and shadow authorities and transition committees must have regard to any such guidance when performing those duties.

Sections 29 to 36 – Restraints on transactions and recruitment etc. by merging authorities

63. Sections 29 to 36 provide the Welsh Ministers with powers to restrain and control certain activities of merging local authorities. These provisions apply to authorities merging by voluntary merger under the Act, and to mergers given effect by other legislation before or passed by the National Assembly for Wales (this is because of the definition of "merging authority" in section 2(3)(b)).

Section 29(1) – Directions in relation to restricted activities

64. Under section 29(1) the Welsh Ministers may direct a merging authority not to undertake a "restricted activity" without either considering the opinion, or obtaining the written consent, of a person specified in the direction. The persons that may be specified are such authorities or persons as the Welsh Ministers consider appropriate, which may include the Welsh Ministers themselves, transition committees and shadow authorities (section 30(3)).

65. Section 29(2), describes the restricted activities in respect of which opinion/consent directions can be issued:

- the selling or buying of land, interests in land, or granting an option to buy land or interests in land (threshold – above £150,000);
- entering into contracts or agreements whose period extends, or could be extended, beyond the transfer date (threshold – above £500,000 if a capital contract; all other contracts £150,000);
- making certain acquisitions of share or loan capital (threshold – above £500,000);

- rhoi grant neu gymorth ariannol arall (trothwy – dros £150,000);
- gwneud benthyciad sy'n ymestyn am gyfnod y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu y gellid ei ymestyn felly (trothwy – dros £150,000);
- cynnwys swm o gronfeydd ariannol wrth gefn wrth gyfrifo ei gyllideb;
- dechrau'r broses o recriwtio prif swyddog neu ddirprwy brif swyddog anstatudol.

66. Diffinnir "contract neu gytundeb perthnasol" fel un sy'n cynnwys cytundeb fframwaith o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (O.S. 2006/5); ac mae contract cyfalaf yn un y mae'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy gan yr awdurdod mewn perthynas â'r contract yn wariant cyfalaf at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol 2003 (adran 34(3) a (4)).

67. Er bod adran 34 yn nodi'r trothwyon isaf y caiff Gweinidogion Cymru dyroddi cyfarwyddydau mewn perthynas â gweithgareddau cyfyngedig ar ôl eu croesi, bydd unrhyw gyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn pennu'r trothwy gwirioneddol; gallai hwn fod yn wahanol i'r trothwy isaf. Mae adran 35 yn nodi sut i benderfynu a yw'r trothwyon ariannol wedi eu croesi. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r trothwyon presennol.

68. Mae adran 29(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno ddarparu manylion gweithgaredd cyfyngedig i'r person a bennir mewn cyfarwyddyd, ac mae adran 29(6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno gyhoeddi ei resymau dros benderfynu bwrw ymlaen â gweithgaredd cyfyngedig pan fo'r person a bennir mewn cyfarwyddyd wedi mynegi'r farn na fyddai'n briodol i'r awdurdod sy'n uno wneud hynny.

69. Mae adran 30(2) yn galluogi cyfarwyddydau o dan adran 29(1) i gael eu dyroddi mewn perthynas ag un awdurdod sy'n uno, dau neu ragor o awdurdodau penodedig, neu awdurdodau o ddisgrifiad penodedig. Yn yr un modd, mae adran 30(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu bod gwahanol bersonau i fynegi barn/cydsynio mewn perthynas â materion gwahanol neu mewn perthynas â gwahanol awdurdodau sy'n uno neu wahanol ddisgrifiadau o awdurdodau. Gall cyfarwyddydau hefyd ddarparu gwahanol ofynion mewn perthynas â'r un gweithgareddau cyfyngedig o werthoedd gwahanol; er enghraifft, efallai y bydd angen cydsyniad awdurdod cysgodol i brynu tir sy'n is ei werth, ond mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer pryniannau gwerth uwch.

70. O ran cronfeydd ariannol wrth gefn, mae adran 31 yn caniatáu i gyfarwyddyd a ddyroddir o dan adran 29(1) gynnwys cronfeydd ariannol wrth gefn o ddisgrifiadau penodol, neu gronfeydd ariannol wrth gefn hyd at drothwy penodedig, wrth gyfrifo'r swm gofynnol yn y gyllideb heb fod angen barn/cydsyniad person penodedig. Bwriad hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i reoli'r defnydd priodol o gronfeydd ariannol wrth gefn, ond heb fynd mor bell â rhwystro awdurdodau sy'n uno rhag defnyddio eu harian.

- giving a grant or other financial assistance (threshold – above £150,000);
- making a loan whose period extends, or could be extended, beyond the transfer date (threshold – above £150,000);
- including an amount of reserves in the calculation of its budget;
- starting the recruitment of a non-statutory chief officer or deputy chief officer.

66. 'Relevant contract or agreement' is defined as including a framework agreement under the Public Contracts Regulations 2006 (SI 2006/5); and a capital contract is one where the consideration payable by the authority in respect of the contract is capital expenditure for the purposes of the Local Government Act 2003 (section 34(3) and (4)).

67. Whilst section 34 sets out the minimum thresholds over and above which the Welsh Ministers may issue directions in relation to restricted activities, any direction issued by the Welsh Ministers will set the actual threshold; this could be different from the minimum. Section 35 sets out how to determine whether the financial thresholds have been exceeded and also enables the Welsh Ministers to amend the current thresholds.

68. Section 29(5) requires a merging authority to provide details of a restricted activity to the person specified in a direction, and section 29(6) requires a merging authority to publish its reasons for determining to proceed with a restricted activity when the person specified in a direction has given the opinion that it would not be appropriate for the merging authority to do so.

69. Section 30(2) enables directions under section 29(1) to be issued in relation to a single merging authority, two or more specified authorities, or authorities of a specified description. Similarly, section 30(4) enables the Welsh Ministers to specify that different persons are to provide an opinion/consent in relation to different matters or in relation to different merging authorities or descriptions of authorities. Directions can also provide for different requirements in relation to the same restricted activities of differing values; for example, land purchases of a lower value may require the consent of a shadow authority whereas higher value purchases may require the consent of the Welsh Ministers.

70. In relation to reserves section 31 allows for a direction issued under section 29(1) to permit the inclusion of specified descriptions of reserves, or reserves of up to a specified threshold, in a calculation of the budget requirement without needing the opinion/consent of a specified person. This is intended to enable the Welsh Ministers to exercise control over the appropriate use of reserves, whilst stopping short of preventing merging authorities from using these monies.

71. Nodir canlyniadau methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddwyd mewn perthynas â gweithgaredd cyfyngedig yn adran 33. Bernir na fydd modd gorfodi contract neu gytundeb yr aed iddo; bydd trafodiad tir neu gaffaeliad cyfalaf yn ddirym; bydd rhaid ad-dalu unrhyw grant neu gymorth ariannol arall, neu fenthyciad perthnasol; a chaiff y defnydd o gronfeydd ariannol wrth gefn heb ei awdurdodi wrth bennu gofyniad yn y gyllideb ei drin fel pe na bai'r cyfrifiad wedi ei wneud, gan rwystro'r awdurdod sy'n uno rhag pennu a chasglu ei dreth gyngor.

Adran 29(3) – Cyfarwyddydau mewn perthynas â phenodi/dynodi i swyddi cyfyngedig

72. Mae adran 29(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau sy'n uno i gydymffurfio â gofynion penodedig wrth geisio penodi neu ddynodi personau i swyddi cyfyngedig, hy, pennaeth y gwasanaeth cyflogedig, swyddog monitro a phrif swyddog statudol. Gall y gofynion penodedig ymwneud â materion fel y gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w thalu neu hyd y penodiad. Os yw cyfarwyddyd o dan adran 29(3) wedi ei ddyroddi, mae'n ofynnol i awdurdod sy'n uno roi manylion unrhyw gynnig i benodi neu ddynodi person i'r swydd y mae'r cyfarwyddyd yn ymdrin â hi (adran 29(5)(b)) i Weinidogion Cymru.

73. Mae adran 32 yn caniatáu i gyfarwyddydau o dan adran 29(3) gael eu rhoi mewn cysylltiad ag un awdurdod sy'n uno, dau neu ragor o awdurdodau penodedig, ac awdurdodau o ddisgrifiad penodedig, a chaiff cyfarwyddyd bennu gofynion gwahanol mewn perthynas â swyddi gwahanol. Bydd methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddir o dan adran 29(3) yn gwneud y contract cyflogi (neu'r contract am wasanaethau) yr aed iddo yn anorfodadwy (adran 33(2)).

Adran 36 – Canllawiau

74. Mae adran 36 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r drefn o roi barn/cydsynio a nodir yn adrannau 29 i 35. Rhaid i awdurdodau sy'n uno a phersonau penodedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir.

Adrannau 37 a 38 – Gofynion gwybodaeth

75. Mae adran 37 yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n uno ddarparu unrhyw wybodaeth iddynt sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn rhoi effaith i drosglwyddo swyddogaethau'r awdurdodau sy'n uno i'r prif awdurdod lleol newydd. Mae adran 38 yn caniatáu, at yr un diben, i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno rannu gwybodaeth gyda chyrff perthnasol eraill – yr awdurdodau eraill sy'n rhan o'r uno, y pwyllgor pontio priodol a'r awdurdod cysgodol priodol.

Adran 39 – Ymestyn dros dro swyddogaethau Panel sy'n ymwneud â phenaethiaid gwasanaethau i brif swyddogion

76. Mae adran 39 yn ymestyn cymhwysiad adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gymwys o ran cyflogau penaethiaid gwasanaeth cyflogedig, i gynnwys holl brif swyddogion holl brif awdurdodau lleol Cymru hyd 31 Mawrth 2020.

71. The consequences of failing to comply with a direction issued in relation to a restricted activity are set out within section 33. A contract or agreement entered into will be unenforceable; a land transaction or capital acquisition will be void, any grant or other financial assistance or a relevant loan will be repayable, and the use of unauthorised reserves in setting a budget requirement will be treated as though the budget calculation had not been made thereby preventing the merging authority from setting and collecting its council tax.

Section 29(3) – Directions in relation to the appointment/designation to restricted posts

72. Section 29(3) enables the Welsh Ministers to direct merging authorities to comply with specified requirements when seeking to appoint or designate persons to restricted posts, i.e., head of paid service, monitoring officer and statutory chief officer. The specified requirements may relate to matters such as the remuneration to be paid or the duration of the appointment. If a direction under section 29(3) has been issued, a merging authority is required to provide the Welsh Ministers with details of any proposal to appoint or designate a person to the post covered by the direction (section 29(5)(b)).

73. Section 32 enables directions under section 29(3) to be given in respect of a single merging authority, two or more specified authorities, and authorities of a specified description, and a direction may specify different requirements in relation to different posts. Failure to comply with a direction issued under section 29(3) will render the contract of employment (or a contract for services) entered into unenforceable (section 33(2)).

Section 36 - Guidance

74. Section 36 concerns the Welsh Ministers' power to issue guidance in relation to the operation of the opinion/consent regime set out within sections 29 to 35, and merging authorities and specified persons must have regard to any guidance issued.

Sections 37 and 38 – Information requirements

75. Section 37 enables the Welsh Ministers to require merging authorities to provide them with any information which the Welsh Ministers consider appropriate for the purpose of giving effect to the transfer of functions of the merging authority to the new principal local authority. Section 38 allows, for the same purpose, the Welsh Ministers to require a merging authority to share information with other relevant bodies - the other authorities involved in the merger, the appropriate transition committee and the appropriate shadow authority.

Section 39 – Temporary extension of functions of Panel relating to heads of paid service to chief officers

76. Section 39 extends the application of Section 143A of the Local Government (Wales) Measure 2011, which applies in relation to the salaries of heads of paid service, to cover all chief officers of all principal local authorities in Wales until 31 March 2020.

77. O ganlyniad, bydd y Panel yn gallu gwneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi, a amlinellir yn natganiad polisi tâl awdurdod, sy'n ymwneud â chyflog prif swyddog awdurdod ac unrhyw newid i gyflog prif swyddog sydd yn yr arfaeth; a rhaid i'r awdurdod roi sylw i unrhyw argymhelliad o'r fath gan y Panel. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw newid i gyflog prif swyddog sydd yn yr arfaeth nad yw'n gymesur â newid i gyflogau staff eraill yr awdurdod. Rhaid i'r awdurdod roi sylw i unrhyw argymhelliad a geir wedi hynny gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newid ai peidio. Mae'r adran hefyd yn ymdrin â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r Panel ynghylch arfer ei swyddogaethau estynedig, a rhaid i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

Adran 40 - Newidiadau i'r ddyletswydd i roi sylw i argymhellion y Panel ynghylch cyflogau

78. Mae adran 40 yn diwygio adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Roedd yr adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau lleol, ymysg awdurdodau eraill, ymgynghori â'r Panel, a rhoi sylw i unrhyw argymhellion gan y Panel, cyn gwneud newid i gyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig nad oedd yn gymesur â newid i gyflog staff eraill yr awdurdod.

79. Bydd yr adran 143A ddiwygiedig yn galluogi prif awdurdod lleol sydd wedi ymgynghori â'r Panel ynghylch gostyngiad arfaethedig i'r cyflog sy'n daladwy i'w bennaeth gwasanaeth cyflogedig weithredu'r gostyngiad cyn cael argymhelliad ynglŷn â'r newid. Ond ni chaniateir gostwng cyflog fel hyn os yw'r contract y mae'r cyflog yn daladwy oddi tano yn atal yr awdurdod rhag newid y cyflog yn dilyn argymhelliad y Panel.

80. Unwaith y mae argymhelliad gan y Panel wedi dod i law, bydd rhaid i'r awdurdod ailystyried y cyflog, gan roi sylw i argymhelliad y Panel. Rhaid i'r prif awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw benderfyniad ganddynt mewn perthynas ag argymhelliad gan y Panel. Os yw Gweinidogion Cymru yn teimlo nad yw'r penderfyniad yn gydnaws ag argymhelliad y Panel, cânt gyfarwyddo'r awdurdod i ailystyried ei benderfyniad.

Adran 41 – Aelodaeth y Panel

81. Mae adran 41 yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 2 i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi rhwng 3 a 7 aelod i'r Panel. Bwriad hyn yw darparu hyblygrwydd o ran nifer aelodau'r Panel (5 ar hyn o bryd) er mwyn rheoli ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae hefyd yn egluro nad yw'n gymwys i gyflogeion awdurdodau lleol fod yn aelodau o'r Panel.

Adran 42 – Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr

82. Mae'r adran hon yn diwygio adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sef y ddyletswydd ar brif awdurdodau lleol i gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr. Mae'n caniatáu i awdurdodau lleol drefnu i'r arolwg gael ei gynnal gan drydydd parti, er mwyn caniatáu i'r arolwg gael ei gynnal yn ei gyfanrwydd ar ôl etholiad neu drwy ofyn i'r ymgeiswyr ateb cwestiynau cyn yr etholiad a chrynhoi'r wybodaeth wedi hynny. Mae hefyd yn

77. Thus, the Independent Remuneration Panel will be able to make recommendations in relation to any policy, outlined in an authority's pay policy statement, relating to the salary of an authority's chief officer and any proposed change to the salary of a chief officer; and the authority must have regard to any such recommendation from the Panel. In addition, a local authority will be required to consult the Panel about any proposed change to the salary of a chief officer which is not commensurate with a change to the salaries of the authority's other staff. The authority must have regard to any recommendation received from the Panel when deciding whether or not to proceed with the change. The section also addresses the Welsh Ministers' power to issue guidance to the Panel in respect of exercising its extended functions, and the Panel is required to have regard to any such guidance.

Section 40 – Changes to duty to have regard to Panel recommendations about salaries

78. Section 40 amends section 143A of the Local Government (Wales) Measure 2011. That section required principal local authorities, among other authorities, to consult the Panel, and have regard to any recommendation made by the Panel, before making a change to the salary of its head of paid service which was not commensurate with a change to the salary of the authority's other staff.

79. The amended section 143A will enable a principal local authority that has consulted the Panel about a proposed reduction in salary payable to its head of paid service to implement the reduction in advance of receiving a recommendation regarding the change. But such a reduction in salary may be made only if the contract under which the salary is payable does not prevent the authority from changing the salary following the Panel's recommendation.

80. Once a recommendation has been received from the Panel, the authority will have to reconsider the salary, having regard to the Panel's recommendation. The principal authority must notify the Welsh Ministers of any decision they reach in relation to a recommendation from the Panel; and the Welsh Ministers, if they feel the decision is not in keeping with the Panel's recommendation, may direct the authority to reconsider its decision.

Section 41 –Panel membership

81. Section 41 amends paragraph 1 of Schedule 2 to the Local Government (Wales) Measure 2011 to enable the Welsh Ministers to appoint between 3 and 7 members to the Independent Remuneration Panel. This is intended to provide flexibility as to the number of Panel members (currently 5) in order to manage and take on the extra responsibilities required by the Act. It also makes clear that employees of local authorities are not eligible to be members of the Panel.

Section 42 – Survey of councillors and unsuccessful candidates for election as councillors

82. This section amends section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2011, a duty of principal local authorities to conduct a survey of councillors and unsuccessful candidates for election as councillors. It allows local authorities to arrange for the survey to be conducted by a third party, to permit the survey to be conducted entirely after an election or by asking candidates to answer questions before the

dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i drefnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n ddienw.

Adran 43 – Cynigion a gyflwynwyd cyn i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gychwyn

83. Mae'r adran hon yn diwygio adran 74(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 sy'n arbed Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Roedd Deddf 2013 yn caniatáu i adolygiadau a gynhelir gan y Comisiwn o dan y gweithdrefnau a ddarparwyd yn Neddf 1972 ar adeg ei deddfu i barhau yn unol â'r darpariaethau hynny. Bydd yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried adroddiadau a gwblhawyd yn llawn o dan weithdrefnau 1972, a gyflwynwyd iddynt gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru cyn i Ddeddf 2013 ddod i rym.

Adran 44 –Rheoliadau

84. Mae'r adran hon yn darparu bod unrhyw bŵer i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf yn arferadwy drwy offeryn statudol.

85. Ni chaniateir gwneud rheoliadau uno, rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol sy'n ymwneud ag uno gwirfoddol, na rheoliadau sy'n gwneud sefydlu pwyllgorau pontio yn ofynnol, oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo.

86. Bydd rheoliadau i ddiwygio'r dyddiad cychwyn ar gyfer cyfnod adolygu 10 mlynedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol prif ardaloedd, ac i ddiwygio'r trothwyon ar gyfer y trafodion y bydd y drefn rhoi barn/cydsynio y mae Gweinidogion Cymru a phersonau penodedig eraill yn rhan ohoni, yn destun gweithdrefn penderfyniad negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 46 - Cychwyn

87. Mae'r adran hon yn darparu y bydd adrannau 25 i 28 a 37 i 43 yn dod i rym ddeufis ar ôl i'r Ddeddf hon gael y Cydsyniad Brenhinol ac y daw'r holl ddarpariaethau eraill i rym drannoeth y diwrnod y bydd yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

election and collating the information afterwards. It also removes the requirement on local authorities to arrange for information to be provided anonymously.

Section 43 – Proposal submitted before commencement of Part 3 of Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013

83. This section amends section 74(2) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 which saves Part 4 of the Local Government Act 1972. The 2013 Act allowed reviews by the Commission being conducted under the procedures provided in the 1972 Act at the time of enactment to be continued in accord with those provisions. This section will allow the Welsh Ministers to consider wholly completed reports made under 1972 procedures that were submitted to them by the Local Government Boundary Commission for Wales before the enactment of the 2013 Act.

Section 44 – Regulations

84. This section provides that any power to make regulations conferred on the Welsh Ministers under the Act is exercisable by statutory instrument.

85. Merger regulations, regulations of general application relating to voluntary mergers, and regulations requiring the establishing of transition committees may not be made unless a draft of the statutory instrument containing the regulations is laid before and approved by the National Assembly for Wales.

86. Regulations to amend the start date for the Local Democracy and Boundary Commission for Wales's 10-yearly review period for electoral arrangements of principal areas and to amend the thresholds for transactions covered by the opinion/consent regime involving the Welsh Ministers and other specified persons will be subject to the negative resolution procedure of the National Assembly for Wales.

Section 46 - Commencement

87. This section provides for sections 25 to 28 and 37 to 43 to come into force two months after the Act receives Royal Assent and for all other provisions to come into force on the day following receipt of Royal Assent.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

88. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=11809

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwyno	26 Ionawr 2015
Cyfnod 1 – Dadl	19 Mai 2015
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	24 Mehefin 2015
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	29 Medi 2015
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	20 Hydref 2015
Y Cydsyniad Brenhinol	25 Tachwedd 2015

©Ⓑ Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

88. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: **http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=11809**

Stage	**Date**
Introduced	26 January 2015
Stage 1 - Debate	19 May 2015
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	24 June 2015
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	29 September 2015
Stage 4 Approved by the Assembly	20 October 2015
Royal Assent	25 November 2015

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
Archebion ffacs: 0333 202 5080
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0333 202 5070
Fax orders: 0333 202 5080
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-11209-2

9 780348 112092